

papur



CYMRAEG

Y GYMRAEG

CYMRAEG

TI SY’N CYFFROI YN F’ENAI DDYFNDER CUDD,
A THRWOT BEUNYDD Y DAW BWRLWM FFYDD;
MAE MIWSIG DY ACENION AR FY NGHLYW
FEL GALWAD DDIOSGOI POB DECHRAU BYW.

TI SY’N TRYSORI RHIN Y DYDDIAU GYNT
A’R HOEN SYDD HEDDIW’N AFIATH YN Y GWYNT;
OS BYDD FY SÊL I’TH ARDDEL ‘FORY’N LLAI,
MADDEUED CRËWR POB RHYW IAITH FY MAI.

W Rhys Nicholas

Dewiswyd gan Bronwen Wilkins.

Am y gerdd gyflawn, gweler y gyfrol Hoff Gerddi Cymru (Gomer)

Rhifyn 298

PAPUR MAWRTH 2017

GAIR GAN EIN GWEINIDOG

*'Gwisg genhinen yn dy gap, a gwisg
hi yn dy galon'*

ER BOD llawer ohonom yn dewis gwisgo cenhinen Bedr ar Ddydd Gŵyl Dewi, gwyddom fod y genhinen hefyd yn symbol o'n Cymreictod.

Roedd hi'n arfer cynnal Eisteddfod ar Ddydd Gŵyl Dewi yn Ysgol Gynradd Lôn Las pan oeddwn i'n blentyn. Roedd cyffro'r dydd yn cychwyn ar y bws ysgol yn gynnar yn y bore, ni'r merched wedi gorfod codi'n fwy cynnar nag arfer er mwyn gwisgo'n gwisgoedd Cymreig, a'n mamau wedi plannu digon o *safety pins* yn y brethyn er mwyn cadw pob haenen o ddillad yn ei lle. Ond am y bechgyn! Byddai'r bechgyn yn dod â chennin go iawn ar y bws ysgol. Hoffai ambell fachgen gychwyn cnoi i mewn i'w genhinen, ac yn wir, erbyn i'r bws gyrraedd pen ei thaith, nid yn unig roedd y cennin wedi lleihau mewn maint, ond hefyd, roedd y bws ysgol yn drewi!



Mae'r genhinen wedi'i chydnabod fel symbol i Gymru ers nifer fawr o flynyddoedd. Roedd cyfeiriad ym 1537 at y dywysoges Mari Tudur, merch Harri'r 8fed yn cael cennin gan un o'r goruchwylwyr ar ddydd Gŵyl Dewi.

Mae Shakespeare hyd yn oed yn sôn am y llysieuyn! Yn ei ddrama am Y Brenin Harri'r 5ed, mae'r brenin yn dweud wrth Fluellen (sef Llywelyn) ei fod yn gwisgo'r genhinen gyda balchder 'gan ei fod yn Gymro'.

Mae lliwiau gwyrdd a gwyn y genhinen yr un fath â'r rhai a welir ar gefndir baner y Ddraig Goch. Dyma oedd lliwiau'r lifrai a wisgai milwyr Cymreig Edward I yn Fflandrys yn 1297, ac yn ddiweddarach gan filwyr Edward, Tywysog Cymru, ym 1346-47.

Credir yn ôl un ffynhonnell fod Dewi Sant ei hun wedi gorchymyn i'w filwyr wisgo'r genhinen ar eu helmedau tra oeddent mewn

brwydr yn erbyn y Sacsoniaid - mewn cae'n llawn o gennin!

Ond i mi, rwy'n cysylltu'r genhinen nid yn unig ag antics y bechgyn ar y bws ysgol pan oeddwn yn blentyn ond hefyd â chawl - cawl cennin, does dim byd gwell ar noson oer o aeaf! Nid gweld y nosweithiau yn troi i mewn, na chwaith y tymheredd yn cwympo oedd yr arwyddion cyntaf i mi fod y gaeaf ar ddod, ond yn hytrach cawl cynta'r tymor y byddai mam yn ei goginio! Cawl cennin = gaeaf!




Gwelodd Meddygon Myddfai werth yn y genhinen wrth ei defnyddio i iacháu nifer o afiechydon. Credid ei fod yn gwella annwyd, yn amddiffyn yn erbyn clwyfau mewn rhyfel ac yn cynorthwyo merched wrth eni plentyn.

Ie, gwisg genhinen yn dy gap, a gwisg hi yn dy galon.

Ai'r cap neu'r galon sydd bwysicaf?

AI GWISGO ein Cristnogaeth ar ein llewys neu yn ein calon sydd bwysicaf?



GWEDDI

Diolch i Ti Arglwydd am Gymru ein gwlad,
Am brydferthwch ei daear,
am gyfoeth ei thraddodiadau,
ac am yr etifeddiaeth dda a drosglwyddwyd i ni.

Helpa ni i adeiladu ar orau'r gorffennol,
i barchu ein hiaith a'n diwylliant,
ac i fod yn ffyddlon i'r Efengyl a bregethwyd gan Dewi Sant,
er mwyn Iesu Grist.

AMEN



GLENYS THOMAS

PP: Mae'n flwyddyn fawr yn hanes mudiad Merched y Wawr eleni, Glenys. Aeth hanner can mlynedd heibio ers ei sefydlu. Oes dathlu i fod yn genedlaethol ac yn lleol?

GT: Oes. Yn rhanbarthol byddwn yn cynnal Te Prynhawn moethus yng ngwesty'r Corran, Lacharn ddiwedd Ebrill gyda Heather Jones yn ein diddanu. Bydd pob rhanbarth yn creu paneli o waith crefft yn darlunio gwaith y mudiad o fewn eu hardaloedd. Bydd y gweithiau hyn yn cael eu harddangos ym mhob un o'r gwyliau genedlaethol. At hyn bydd nifer o ddigwyddiadau i ddathlu yn eisteddfod Genedlaethol Sir Fôn. Bydd arddangosfa fawr yn y Parc, lle ddechreuodd y Mudiad, am wythnos ym mis Mehefin, yn nodi'r holl hanes.



PP: Sut dechreuodd eich diddordeb yn y mudiad yn y lle cyntaf?

GT: Er i mi fod yn ymwybodol o fodolaeth y Mudiad pan oeddwn yn y coleg, des i'n aelod ar ôl symud i Gaerfyrddin ym 1969. Yr un a ddylanwadodd fwyaf, bryd hynny, oedd Mrs Enid Jones, un o sylfaenwyr y Mudiad yn yr ardal yma. Roedd amcanion a gwerthoedd y Mudiad yn cyd-daro â'r hyn yr oeddwn i yn ei deimlo oedd yn bwysig ar y pryd, ac yn dal yn bwysig heddi, sef bod rhaid amddiffyn a chadw'r Gymraeg a'r diwylliant a diogelu safle'r ferch mewn cymdeithas.



PP: Rydych chi'n gyn-lywydd cenedlaethol y mudiad. Mae'n siŵr bod ambell i achlysur yn aros yn y cof o'r cyfnod hwnnw?

GT: Fe fûm yn ddigon ffodus i gael ymweld â changhennau Cymru ben-baladr o Foelfre i Rosllannerchrugog, ac o Laniestyn i Lanfyllin, o Benfro i Forgannwg a rhyfeddu at y gweithgarwch ymhobman. Fe'm syfrdanwyd gan y croeso. Er bod yr aelodau yn bwrw mla'n ychydig, roedd yn galonogol i ganfod aelodau ifenc newydd, brwdfrydig yn y Clybiau Gwawr a hynny yn rhoi gobaith i'r dyfodol. Efallai taw un o uchafbwyntiau'r ddwy flynedd oedd y daith feiciau noddedig gan dair o'r aelodau o Ben Llyn i godi arian i Glefyd y Siwgr a chasglwyd mwy na £10,000.

PP: Sicrhau dyfodol yr iaith a'i ffyniant ar dafodau mamau a merched o bob oed oedd un o brif fwriadau Zonia Bowen, Saesnes o Swydd Efrog, wrth sefydlu'r mudiad. Hanner can mlynedd yn ddiweddarach, a ddywedech chi fod y mudiad wedi llwyddo yn hyn o beth?

GT: Heb os nac oni bai. Mae'r Mudiad wedi bod ar flaen y gad yng Nghymru yn sicrhau gwell amodau i ferched ac, wrth gwrs, fydder mudiad ddim yn bodoli oni bai am y pwyslais creiddiol i amddiffyn a diogelu'r iaith. Mae'r un ymroddiad dros y gwerthoedd sylfaenol hynny yn bodoli heddiw hanner canrif wedi i ferched y Parc benderfynu bod angen Mudiad hollol Gymraeg i ferched yng Nghymru.

PP: Fe gofiwch i Zonia Bowen ymddiswyddo o'r mudiad gan deimlo nad oedd y gymdeithas wedi gwireddu'i dymuniad gwreiddiol o barchu gwahaniaethau barn grefyddol ei haelodau, heb roi bendith swyddogol ar y naill yn fwy na'r llall. A yw Merched y Wawr yn ddigon cynhwysol heddiw yn eich barn chi?

GT: Mae croeso i bob merch o bob cred, lliw a thueddiadau i ymuno â Merched y Wawr. Yr unig amod yw ei bod yn derbyn bod popeth yn cael ei gynnal yn y Gymraeg. Prawf o hynny yw bod nifer cynyddol o ddysgwyr yn ymuno ac yn ymdoddi yng ngwaith y mudiad a theimlo'n gartrefol yn ein plith.

PP: Tybed a welwch chi ddyfodol llewyrchus i Ferched y Wawr?

GT: Rwy'n hollol grediniol y bydd na le i'r Mudiad tra pery'r iaith. Efallai y bydd yn rhaid wrth ambell i newid gan fod ein cymdeithas yn newid a dulliau o gynnal gweithgareddau yn newid yn gyflym. Bydd wastad angen mudiad i amddiffyn buddianau'r Gymraeg a rôl merched yn y gymdeithas ac, i mi, Merched y Wawr a'r Clybiau Gwawr fydd yn allweddol i sicrhau hynny.

PP: Mae'ch gwreiddiau yn Llangwryfon yng Ngheredigion. Beth am ddyfanwadau'r ardal honno arnoch?



GT: Mae fy ngwreiddiau'n ddwfn yn "Llangwrddon". Merch y wlad ydw i ac y bydda i am byth. Mewn pentre gwledig, mae agosatrwydd y gymuned yn holl bwysig. Pawb yn helpu ei gilydd, pawb yn gwneud ei ran ac y mae'r elfennau hynny wedi gadael eu hôl arna i ac wedi ysgogi'r teimlad o berthyn a chyfrifoldeb dros eraill. Efallai mai dyma pam rydw i wedi ceisio gwneud fy rhan mewn gwahanol gylchoedd.

PP: Yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Ardwyn Aberystwyth a chynfyfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth, treulioch chi flynyddoedd maith yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Dyffryn Aman. A fu'r cyfnod hwnnw wrth eich bodd?

GT: Yn Rhydaman y cefais fy swydd gyntaf fel athrawes, yn syth o'r coleg, ac felly mae na le cynnes yn fy ngalon i'r cyfnod hwnnw. Roedd na fwrlwm yn yr ardal am bethau Cymraeg, Yr Urdd, Y Cymrodorion, Plaid Cymru a'r capel. Roeddwn yn teimlo'n gartrefol yno o'r dechre ac roedd Ysgol Ramadeg Dyffryn Aman yn un o'r goreuon a staff dylanwadol a chyfeillgar. Bûm yno am 33 mlynedd i gyd ac, yn anffodus, yn dyst i'r dirywiad yn y gymdeithas lofaol Gymraeg. Siom fawr oedd bod yn ymwybodol o'r dadfeliad cymdeithasol yna.



PP: Gwyddom am eich gwaith da gydag Urdd Gobaith Cymru a'r Aelwyd yng Nghaerfyrddin. Beth am ffrwyth gwaith y mudiadau hyn?

GT: Am flynyddoedd fe fues i a Sulwyn yn gofalu am yr Aelwyd yn y dre a chael hwyl yng nghwmni pobl ifenc, lawer ohonyn nhw erbyn hyn mewn swyddi cyfrifol yng Nghymru. Er bod na o bosib ormod o bwyslais ar eisteddfota yn y mudiad, mae'r Urdd yn cynnig pob math o gyfleoedd i berson ifanc wella ei hun a chymryd cyfrifoldeb i weithio dros ei wlad, ei gyddyn a Christ. Does na ddim gwell arwyddair nag arwyddair yr Urdd ac y mae wedi ffurfio cymeriadau dros y blynyddoedd.



PP: Rydych newydd ymddeol ar ôl blynyddoedd gwerthfawr fel llywodraethwr cydwybodol tu hwnt yn Ysgol Gymraeg Bro Myrddin. A fydddech yn argymhell pobl i fod yn llywodraethwyr y dyddiau hyn?

GT: Roedd hi'n ffrainc bod yn Llywodraethwr am fwy na deng mlynedd ac yn gyfrifoldeb hefyd. Mae'n bwysig bod pawb yn dangos diddordeb ym myd addysg a dyfodol ein plant a'n pobl ifenc. Rydym yn ffodus bod gyda ni ysgol benigamp ym Mro Myrddin a'n dyletswydd yw diogelu'r safonau uchel a bod yn gefn i'r Pennaeth a'r staff. Byddwn yn argymhell eraill i gael y profiad o weld sut y mae ysgol yn gweithio a sut y mae'n cael ei rheoli.

PP: Mae'n amlwg fod y Priordy'n bwysig i chi a Sulwyn. Allwch chi ddweud wrthym pam?

GT:. Roedd yn amlwg bod y Priordy yn bwysig i Sulwyn cyn i ni briodi yno ym 1969 ac mae wedi tyfu'n bwysig i mi wedi hynny. Roedd dylanwad y Parchedig T James Jones yn allweddol yn hynny o beth, a 'r holl weithgaredd yn y capel ar y pryd. Roeddwn i wedi cael fy nghodi ar aelwyd grefyddol ac roeddem yn amlwg yn awyddus i godi Owain a Branwen yma hefyd. Mae'n destun llawenydd bod y bwrlwm, y gweithgaredd a 'r prysurdeb yn



parhau a'n bod ni yn rhan o hynny.

PP: Rydych yn brysur iawn yn gwarchod yr wyrion y dyddiau hyn! Ond pan fo cyfnod i hamddena, beth sydd wrth eich bodd?

GT: Ar ddyddiau braf o haf, does dim yn well na cherdded ar hyd Llwybr Arfordir sir Benfro, neu fryniau canolbarth Cymru. Rwy hefyd wedi bod yn ffodus iawn i gael teithio'r byd a gobeithio y cawn iechyd i ymweld ag ambell i le diddorol eto..



PP: Ac un cwestiwn arall i gloi, os gwelwch yn dda. A chwestiwn y bydd pawb yn edrych ymlaen at glywed yr ateb, mae'n siŵr! Sut brofiad yw bod yn wraig i Sulwyn?!

GT: Credwch fi neu beidio mae Sulwyn yn gallu bod yn ddigon tawel gartre. Mae'n anbeithiol yn y gegin - er yn dda wrth y barbeciw!!! Rwy wedi byw 'da fe nawr am 48 mlynedd a siawns ein bod yn deall ein gilydd yn weddol erbyn hyn!!!

Llawer iawn o ddiolch i chi am ateb y cwestiynau a phob hwyl gyda'r dathlu!

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

Y TYST

50c y rhifyn!

Cysyllter â Sulwyn Thomas



DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

RHIAN EVANS

Rhodfa'r Gogledd

IRIS OWEN

Hafod Cwnin

DESMOND A NANSI HAYES

Coedlan Penbryn

CARYS A JOHN GREEN

Tre Ioan

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

AGOR Y GAIR YN Y GRAWYS

CYFRES O ASTUDIAETHAU BEIBLAIDD

CYMRAEG YNG NGHAERFYRDDIN

dan arweiniad

Y Parchedigion Beti-Wyn James a Peter Cutts

Boreau Mercher 22 a 29 Mawrth, 5 a 12 Ebrill 2017

11 tan 12 o'r gloch

Canolfan yr Atom, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Manylion pellach: ☎01267 237696 / 236658

Noddir y Gyfres gan Raglen Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg



CYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN

CAERFYRDDIN

CWRDD CHWARTER NESAF

Pant-teg ger Felin-wen

Dydd Iau 9 Mawrth 2017 - 10.30 a 1.30

Yn y prynhawn

Dau Begwn (Bipolar) a lechyd Meddwl – David Williams



Bu Helen Gibbon yn gwrandio ar....

**YR OEDFA: BORE SUL
12 CHWEFROR AM 11.30AM
AR RADIO CYMRU**



Mae hysbysebion yn ymddangos o bryd i'w gilydd yn ein papurau enwadol yn holi am weinidogion neu weithwyr cenhadol neu

anogwyr ym meysydd efengylu. Mae hefyd hysbysebion am ysgrifenyddion neu weinyddwyr i ysgwyddo baich gweinyddol gweinidogion ac yn ddiweddar roedd un hysbyseb ar gyfer swydd o'r fath yn nodi'i bod hi'n ofynnol i'r ymgeisydd fod yn Gristion. Ysgogodd hwn lythyru â'r wasg yn gofyn am ddiffiniad o'r gair Cristion. Wrth wrando ar Oedfa fore Sul Chwefror 12fed, oedd yng ngofal y Parch Beti-Wyn a'i chwmni Carwyn, Steffan, Lleucu a Lucy, cafodd yr hen gydwybod ei brocio eto. A yw'n hawdd arddel yr enw Cristion heddiw? A yw'n boblogaidd bod yn Gristion heddiw?

Ie, bod yn boblogaidd. Dyna oedd thema'r oedfa, neu, a dweud y gwir, i'r gwrthwyneb, sef bod yn amhoblogaidd. Dyma grynodedd ohoni.

Yn ôl ymateb grŵp o bobl ifanc ychydig yn ôl mae'n debyg mai yr angen am fod yn boblogaidd sy'n fynych ar dop eu rhestr i gymharu â, dyweder, bod yn gyfoethog neu'n llwyddiannus, yn ddylanwadol neu'n dalentog. Heddiw mae'r gwefannau cymdeithasol yn bwydo'r awydd i fod yn boblogaidd a'r gobaith am yr "hoffi" neu yn "ei ddilyn" ac ati yn rhoi modd i fyw yn enwedig i'r genhedlaeth iau. Mae bod yn boblogaidd yn dibynnu ar farn pobl eraill ohonom ac mae hyn yn wir ymhob maes yn enwedig y byd gwleidyddol. Doedd gan Beti-Wyn ddim "*presgripsiwn ar gyfer bod yn boblogaidd*" ond roedd yn gallu cynnig un neu ddwy ffordd ar sut i fod yn amhoblogaidd.

Er bod Iesu yn boblogaidd iawn ar ddechrau ei weinidogaeth gyda thyrfaoedd yn ei ddilyn i bob man, fe fagodd ryw amhoblogrwydd ryfedd. Pam? Oherwydd iddo sefyll dros hawliau a gofynion Duw. Oherwydd iddo sefyll dros gyfiawnder a heddwch, cariad a maddeuant. Roedd yn sefyll dros yr hyn yr oedd yn credu ynddo ac mae hynny yn siŵr o wneud rhywun yn amhoblogaidd. Yn y diwedd trodd ei gynulleidfa oddi wrtho ac hyd yn oed ei ddeuddeg

disgybl, a Pedr yn eu plith, er cymaint yr oedd wedi proffesu ei ffydd. Pan arweiniwyd Iesu i'r Groes nid oedd neb ar ôl i'w gefnogi ac fe ddyfynnwyd o emyn godidog George Rees i adlewyrchu hyn:

*O Fab y dyn, Eneiniog Duw, fy Mrawd
a'm Ceidwad cry;
Ymlaen y cerddaist dan y groes a'r gwawd
Heb NEB o'th du.*

Ffodd y disgyblion i gyd. Roedd Jwdas wedi ei fradychu, Pedr wedi gwadu ei fod hyd yn oed wedi ei adnabod a'r gweddill wedi'i sgathru yn eu hofn. Pregethai Iesu neges o gariad, brawdgarwch, trugaredd, cyfiawnder, tangnefedd, maddeuant a chymod - ffrwythau'r Ysbryd oedd y tu hwnt i ddirnadaeth ei gynulleidfa ac yn y diwedd y tu hwnt i ddirnadaeth y rhai agosaf ato. Wrth bregethu'r gwirionedd dyma fe'n magu amhoblogrwydd. Mae'r Gwir yn brifo. Ond nid dim ond pregethu hyn a wnâi Iesu ond ymarfer yr hyn yr oedd yn pregethu amdano ac roedd hynny yn golygu cymysgu gyda phobl oedd ar gyrion cymdeithas ac yn nhyb pobl barchus y dydd "y *short rong*."

Collodd Iesu ei gynulleidfa, darlun nad yw'n anhebyg i'r sefyllfa mewn sawl man yn y Gymru gyfoes a dyma ddywedodd Beti-Wyn, "*Nid byw **ar** ei gynulleidfa a wna'r pregethwr. Nid byw **trwy**'i gynulleidfa chwaith ond byw **i'w** gynulleidfa.*" Beth sydd ar ôl os nad oes neb yn gwrando?

Nid colli poblogrwydd yn unig ond colli bywyd fu hanes Iesu a llawer iawn o'i ddilynwyr ar hyd yr oesau yn cynnwys rhannau o'r byd heddiw. Dyma'r aberth eithaf.

Roedd hon yn neges rymus wedi ei phlethu rhwng darlenniadau o'r Ysgrhythur a gyflwynwyd yn raenus gan Carwyn, a ddarllenodd adnodau o drydedd bennod Mathew, a Steffan a ddarllenodd adnodau 59-70 o chweched bennod Ioan, a gweddïau a offrymwyd yr un mor effeithiol gan Lleucu a Lucy.



Dyma sut wnaeth Beti-Wyn gloi ei neges:

"Pe bai Iesu yn ein gwahodd i ddod yn ffrind iddo drwy dudalen Facebook bywyd, gallen ni dderbyn ei wahoddiad, a gwasgu'r

Botwm "Hoffi" yn llawn hyder ffydd y caem gwmni Arglwydd a fyddai'n cerdded gyda ni yn ein brwydrau ac yn ein gwroli a'n nerthu - er gwaethaf beirniadaeth rhai ohonom."

Na, dyw bod yn Gristion ddim yn hawdd, ac nid ar chware bach y mae person yn mentro arddel yr enw. Diolch am gael ein hatgoffa bod y llwybr i wir fywyd yn golygu credu yn yr Arglwydd Iesu Grist a dilyn ei arweiniad, ymddiried yn y Gair a bod yn ddewr yn y Ffydd, a..... bod yn barod i fod yn amhoblogaidd ar y ffordd.




Diolch yn fawr iawn i Helen Gibbon, Capel Dewi, am fod mor barod i'n helpu drwy lunio'r adroddiad hwn.

MATER O GONSŶRN I BAWB

SAFON ISAFSWM INCWM (SII) (COST SAFON BYW SYLFAENOL A DERBYNIOL)

Ar 15 Chwefror 2017 cynhyrchodd Sefydliad Joseph Rowntree adroddiad am aelwydydd sy'n byw islau'r Safon Isafswm Incwm yn y Deyrnas Unedig.



Mae'r Safon Isafswm Incwm yn feincnod incwm digonol ar sail yr hyn y mae'r cyhoedd yn credu bod ei angen ar bobl ar gyfer isafswm safon byw dderbyniol yn y DU.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos fod llawer o bobl yn byw islau safon byw ddigonol yn y Deyrnas Unedig

Ymhlith y casgliadau mae'r canlynol:

- Rhwng 2008/9 a 2014/5 bu cynnydd o 4 miliwn yn nifer yr unigolion islau'r SII - o 15 miliwn i 19 miliwn (o 25% i 30% y boblogaeth)
- Mae 11 miliwn o bobl yn byw ymhell dan SII, i fyny o 9.1 miliwn sydd ag incwm islau 75% o'r safon ac mewn perygl uchel o fod mewn tldi

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

CAPEL Y PRIORDY, CAERFYRDDIN

CYMANFA FAWR PANTYCELYN

Nos Sul, 18 Mehefin 2017 am 7 o'r gloch

Cofio 300 mlwyddiant geni William
Williams, Pantycelyn



Arweinydd
John S Davies

Artistiaid Lleol

Rhaglen : £5 (ar gael cyn bo hir)

Elw at Gronfa Organ Capel y Priordy



Y TABERNACL, CAERFYRDDIN

NOS IAU CABLYD

13 Ebrill 2017

7.00pm

OEDFA GYMUN

Y PARCHEDIG

PETER CUTTS

Caerfyrddin

DYDD GWENER Y GROGLITH

14 Ebrill 2017

10.00am (yn unig)

OEDFA BREGETHU

Y PARCHEDIG


PETER DEWI RICHARDS

Caerdydd

TAITH GERDDED Y PASG - CYTŪN

*Dydd Gwener 14 Ebrill - 12 o'r gloch gan ddechrau o'r Capel Wesle lle
bydd paned ar gael ymlaen llaw*

BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS A'R BLWCH
POTELI PLASTIG YN Y CYNTEDD**

**GWENLLIAN A MARGED YN YMLACIO YN FLORIDA AR ÔL GWNEUD
MOR DDA MEWN CYSTADLEUAETH GYMNASTEG
*Gweler y Rhwydwaith***



**FFION PARSONS YN CAEL EI LLONGYFARCH AM
GODI £2020 AT MYELOMA**




DILYN EICH TRWYN?

YDYCH chi'n glynu'n dynn at y dyddiad olaf gwerthu sy'n cael ei nodi ar y gwahanol fwydydd a brynwch?



Tybed a yw'r dyddiad olaf gwerthu'n llinyn mesur dibynadwy bob tro? Mae yna ymgyrch ar droed i geisio cael perchentywyr i ddibynnu mwy ar brawf arogli i farnu a yw llaeth, er enghraifft, yn dal i fod yn yfadwy ai peidio!

Pam, meddech chi? Wel, meddyliwch am hyn. Gallai hynny arbed mwy na 100 miliwn o beintiau o laeth y flwyddyn sy'n cael eu gwastraffu ar hyn o bryd oherwydd y dyddiad olaf gwerthu bondigrybwyll!



Y ddadl yw bod y dyddiad olaf gwerthu wedi'i fwriadu ar gyfer cynnyrch fel cig a allai fod yn anniogel pe bai'n cael ei fwyta ar ôl cyfnod penodol.

Yn ôl yr elusen WRAP, mae'r dyddiad olaf gwerthu'n cael ei ddefnyddio'n gynyddol ar fwydydd lle nad oes, o bosib, ei angen o gwbl - fel llaeth, iogyrtiau, caws a bara naan.

Mae bron 500 miliwn o beintiau o laeth yn cael eu gwastraffu bob blwyddyn a'r bumed ran ohonynt o ganlyniad i label y dyddiad olaf gwerthu. Mae WRAP yn trafod gyda'r sector llaeth a fyddai modd symud llaeth o gategori dyddiad olaf gwerthu i gategori dyddiad 'ar ei orau cyn'.

Mae'r raddfa gwastraffu bwyd yng Ngwledydd Prydain yn drychinebus ar hyn o bryd. Ac nid yw'n gyfyngedig o gwbl i laeth. Mae'n debyg fod cartrefi, ar gyfartaledd, yn gwastraffu gwerth £700 o fwyd bob blwyddyn sydd gyfwerth â 500 pryd o fwyd.

Y GREDO yw bod angen gwneud rhywbeth ar fyrder. Onid yw'n amser i ni helpu trwy roi'n trwynau ar waith unwaith eto? Beth yw'ch barn, tybed?



Y PRIORDY’N CEFNOGI

LLOCHES I FENYWOD, CAERFYRDDIN UNWAITH ETO

Yn ystod mis Mawrth, byddwn fel eglwysïr Ofalaeth yn gwneud ymdrech arbennig i gefnogi Gwasanaethau Trais yn y Cartref yng Nghaerfyrddin (*CDAS - Carmarthen Domestic Abuse Services*) - ymgyrch sydd wedi bod yn ffocws Rhwydwaith Gwragedd Undeb yr Annibynwyr yn ystod y flwyddyn. Elusen leol yw hon sy’n cefnogi menywod, dynion a phlant a effeithir gan drais yn y cartref.

Mae CDAS yn cynnal lloches i fenywod yng Nghaerfyrddin sy’n sicrhau man diogel i fenywod a phlant i aros. Mae’r lloches yn cynnig lle a chefnogaeth i hyd at bum teulu ar y tro, i famau a phlant neu i fenywod sengl. Mae gweithwyr wrth law i gynnis cefnogaeth gydag ystod eang o bethau yn cynnwys cefnogaeth ymarferol ac emosiynol.

Mae’r lloches yn cynnig cefnogaeth 24 awr y dydd 365 dydd y flwyddyn. Manylion llawn ar y wefan <http://www.carmdas.org/help-services/refuge/>.


Mae rhai’n ei chael yn anodd credu bod angen y fath le yn ein tref ni. *Nid oes un dref na phentref nac ardal yn rhydd o drais yn y cartref.*

Ar ôl bod mewn trafodaethau gyda’r lloches yng Nghaerfyrddin, rydym wedi cytuno i gasglu’r nwyddau canlynol (rhestr isod) a fydd o gymorth i roi dechrau newydd i rai o’r menywod sy’n ymweld â’r lloches. A wnewch chi’n helpu os gwelwch yn dda? Wrth ystyried cyfrannu, gofynnwn yn garedig i chi lynu at yr rhestr isod, a gwneud yn siŵr bod y nwyddau’n newydd sbon. Os na allwch ddod â nwyddau, rydym yn barod i dderbyn cyfraniad ariannol. Os dymunwch, byddaf yn hapus iawn i fynd i siopa ar eich rhan!

Bydd blychau yn y Capel drwy gydol mis Mawrth. Apeliad am eich cefnogaeth i’r apêl leol bwysig hon.

Diolch
Beti-Wyn


- Llyfrau Lliwio OEDOLION
- Pinnau ffelt neu bensiliau lliw
- Creffttau i OEDOLION
- Clustogau (newydd)
- Duvet sengl (newydd)
- Dillad isaf i fenywod (*pants*) maint 8 i 16 (newydd yn eu pecynnau os gwelwch yn dda)



BORE COFFI'N TARO'R NOD

Unwaith eto roedd Bore Coffi Plant Dewi yng Nghaerfyrddin yn llwyddiant ysgubol. Codwyd bron i £2,500 ar fore Sadwrn, 11 Chwefror yn Neuadd San Pedr.

Roedd y nifer yn llai eleni am reswm arbennig. Roedd Esgob newydd Tyddewi, Joanne Penberthy, yn cael ei chysegru'r diwrnod hwnnw yn Nhyddewi a hynny'n golygu bod yn rhaid i'r clerigwyr fod yno. Serch hynny, roedd aelodau eglwysi cylch Caerfyrddin yno'n gryf. Roeddwn hefyd yn hynod o falch o weld cynifer o aelodau'r Priordy, a chapeli eraill yn bresennol, yn enwedig aelodau Heol Awst a oedd yn gyfrifol am stondin y capeli'r tro hwn.



Diolch i bawb am gefnogi'r digwyddiad pwysig hwn i sicrhau parhad Plant Dewi a'r cymorth amrhesiadwy a gynigir i deuluoedd llai ffodus yng ngorllewin Cymru.

Dyw'r ffigwr a nodwyd eisoes ddim yn derfynol. Mae Banc Lloyds wedi addo nodd i'r digwyddiad eleni ond heb eto gadarnhau'r cyfraniad.

Sulwyn Thomas

THEATR Y FFWRNES, LLANELLI

 0845 226 3510

Theatr Bara Caws

yn cyflwyno

YFORY

gan

Siôn Eirian

Nos Wener 17 Mawrth – 7.30

Creisis personol, creisis gwleidyddol – erbyn yfory bydd y byd wedi newid.....



PYTHEFNOS MASNACH DEG

27 Chwefror – 12 Mawrth 2017



Croeso i dudalen Ieuenctid@Priordy



Gŵyl Dewi

Oedfa grêt! Fe wnaeth pob un ohonoch ei waith yn wych. Ardderchog.

#gweindiogprowd

PIP ar Daith



Wyt ti erioed wedi meddwl be sy'n digwydd pan fydd rhywun yn deialu 999?

Wyt ti erioed wedi eistedd y tu mewn i gar heddlu? (Gobeithio na!)



Wyt ti erioed wedi meddwl bod gan yr heddlu Gaplan (Gweinidog) sy'n gofalu amdanynt?

Wel, dyma dy gyfle mawr i ddysgu mwy am y pethau hyn.

Dydd Sul, Mawrth 19, fe fydd PIP yn mynd ar daith arbennig i Bencadlys yr Heddlu yn

Llangynnwr trwy garedigrwydd y Caplan, Y Parchg Tom Evans. Mae hwn yn ymweliad arbennig sydd wedi cymryd llawer i'w drefnu! Gobeithio felly bydd yna gefnogaeth i'r bore.

Cwrdd yn y Priordy am 10. Cael eich cludo draw I

Langynnwr erbyn 10.15. Gadael Llangynnwr am 11.45 ac yn ôl i'r dref. Fe fydd yn rhaid i mi gael rhif pendant ac enwau ar gyfer y daith. Byddaf mewn cyswllt dros e-bost cyn bo hir,

Calendr y mis

Mawrth 5 - Ysgol Sul a PIP

Mawrth 12 - Ysgol Sul a PIP

Mawrth 19 -Ysgol Sul i'r plant. PIP ar daith.

Mawrth 26 - Ysgol Sul a PIP Sul y Mamau.

Ebrill 2 - Ysgol Sul a PIP

Grŵp PIP

Mae gennym grŵp ar Facebook ar gyfer aelodau a rhieni PIP. Mae'r grŵp yn un caeëdig, ar gyfer yr aelodau yn unig. Os ydych yn un o aelodau PIP, a gennych gyfrif *Facebook*, ac yn dymuno bod yn y grŵp, yna rhowch wybod i Beti-Wyn

Twdlw am y tro! Beti-Wyn



Meinir Jones...

GWASANAETH DATHLU GŴYL DEWI YN Y PRIORDY



HYFRYD oedd croesawu tyrfa niferus iawn i Gapel y Priordy fore Sul, 26 Chwefror i oedfa ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Er i'r tywydd fod yn drech na'r parêd Gŵyl Dewi a oedd i'w gynnal yng Nghaerfyrddin y diwrnod cynt, ni wnaeth y gwynt a'r glaw atal aelodau eglwysi Cymraeg y dref rhag gwneud eu ffordd i'r Priordy ar y bore Sul, ar gyfer oedfa arbennig iawn.



Yn dilyn yr Intrada cafwyd gweddi agoriadol gan Siwan o'r Priordy, yn diolch am y cyfle i addoli gyda'n gilydd fel Ysgolion Sul y dref ac yn gofyn am fendith Duw ar yr oedfa. Aeth yn ei blaen i estyn croeso cynnes i bawb i'r Priordy, ac yn enwedig i Faer a Maeres

Caerfyrddin. Eglurodd y byddai cynrychiolwyr o Ysgolion Sul y dref yn cymryd rhan yn y gwasanaeth, a Band y Priordy yn cyfeilio.

Yna cafwyd darlleniad wrth i'r gynulleidfa, dan arweiniad plant Ysgol Sul y Tabernacl, gyd-ddarllen Salm 150, gyda'r alwad ar i bopeth sy'n anadlu foli'r Arglwydd. Parhawyd â'r moliant wrth i'r gynulleidfa uno i ganu'r emyn Jubilate, i gyfeiliant bywiog y band.

Torrwyd ar draws y gwasanaeth wedyn gan Fwletin Newyddion ar gyfer Radio Priordy. Clywyd llais cyfarwydd Aled Scourfield yn sôn am effaith dathlu Gŵyl Dewi ar fusnesau tref Caerfyrddin, gyda'r galw cynyddol am lysiau a chennin i wneud cawl, a bara brith a phice ar y maen ym mhob man! Mynegodd y newyddiadurwr ei syndod, er bod Dewi Sant wedi marw ers blynnyddoedd, mae pobl yn dal i ddathlu ei fywyd.



Yn eu cyflwyniad hwy, fe wnaeth plant Ysgol Sul Heol Awst amlinellu rhai o'r ffyrdd hynny yr ydym yn dathlu Gŵyl Dewi, megis trwy gynnal parêd, eisteddfod, cyngerdd, a bwyta digon o gawl! Ond pwysleisiwyd hefyd ei bod yn bwysig cynnal *gwasanaeth*, a hynny yn yr iaith Gymraeg, gan i'r iaith chwarae rhan bwysig ym mywyd crefyddol Cymru ar hyd yr oesoedd. Yn eu tro, clywsom gan y plant am gyfraniad amrywiol bobl i gadw'r iaith Gymraeg a chrefydd ynghyd,

megis William Salesbury, yr Esgob William Morgan, Griffith Jones, Llanddowror a Tomos Charles o'r Bala.

Daeth hanes Tomos Charles a Mari Jones yn fyw o'n blaenau trwy gyflwyniad effeithiol iawn ar lafar ac ar gân (yn cynnwys rap!) gan griw bywiog PIP, Pobol Ifanc Priordy. Mae'r stori'n hen gyfarwydd i ni wrth gwrs, ond fe'i cyflwynwyd mewn modd modern a difyr, gyda thipyn o hiwmor, gan roi i ni olwg newydd ar yr hanes. Daeth y cyflwyniad i ben gyda'r gynulleidfa'n ymuno â'r bobl ifanc i ganu'r geiriau "A chofio wnawn, ar Ddydd Gŵyl Dewi - am y rhodd o Feibl yn ein hiaith."

Fe'n harweiniwyd mewn gweddi gan blant Ysgol Sul Eglwys Crist, gan ddiolch i Dduw am bopeth a dderbyniwn o'i law o ddydd i ddydd. Ar ddydd Gŵyl Dewi diolchwn yn arbennig am ein gwlad a'n cenedl, ein hiaith a'n diwylliant, ac am ein nawddsant Dewi ei hun a'i fywyd o wasanaeth yn teithio o le i le yn trosglwyddo neges Dduw.

Cafwyd eitem wedyn gan gôr unedig yr Ysgolion Sul yn canu "*Mae'r bysedd bach yn clicio*", a hyfryd oedd eu gweld i gyd â gwên ar eu hwyneb, yn amlwg yn mwynhau wrth ganu a gwneud y symudiadau.

Wedi i ni ganu'r emyn "*Dysg imi garu Cymru*" a draddodwyd gan Anest o'r Priordy, cafwyd gair gan Beti-Wyn, a oedd yn edrych yn bictiwr gyda chennin Pedr ar ei phen ac ar ei siwmpwr! Eglurodd fod Dewi Sant yn arwr iddi am ddau reswm, yn gyntaf am iddo gael ei eni a'i fagu yng Nghymru, ac yn ail am ei fod yn Gristion.



Soniodd am y modd yr arferai Dewi grwydro o amgylch y wlad yn dysgu pobl am Iesu Grist. Gyda chymorth Tomos, dangosodd fel yr ydym ni heddiw yn mynd â thipyn o bopeth gyda ni wrth fynd i gerdded, yn sach, het, ymbarél, sgarff, map, dŵr, lamp, pabell ac ati. Druan o Tomos, roedd e'n cael trafferth symud wrth gario'r holl bethau! Ond yn wahanol i ni heddiw, roedd Dewi Sant yn byw bywyd syml ac yn cario tri pheth yn unig, sef cloch, y Beibl a ffon. Arferai ganu'r gloch i gynnull pawb ynghyd, ac yna darllen y Beibl iddynt gan ddysgu'r bobl am Iesu ac am gariad Duw. Pan fyddai'n flinedig byddai'n pwyso ar ei ffon i'w gynnal wrth iddo gael saib. Fel Dewi

rydym ninnau, wrth fynd yn hŷn, yn pwysu ar y pethau rydym wedi'u dysgu am Iesu Grist i'n cynnal drwy gydol ein bywydau.

YN YSTOD yr emyn olaf, "*Fe chwythodd yr awel ar Gymru drachefn*", gwnaethpwyd casgliad at ddarparu a chyflwyno Beiblau Cymraeg i blant blynyddoedd 5 a 6 yn ysgolion yr ardal. Dyna i chi achos priodol iawn o gofio thema'r gwasanaeth a thrwy hynny rydym nid yn unig yn dal i ddathlu bywyd Dewi Sant, rydym hefyd yn parhau â'i waith.



BEIBL BYW

GYDA'R HWYR YN ELIM

Daeth nifer ohonom o wahanol gapeli ac eglwysi Cymraeg y dref i'r Oedfa Gymun yn Elim gyda'r hwyr.



Cymerwyd rhan gan y Parchedigion Peter Cutts, Beti-Wyn James, Tom Defis a Patrick Thomas.

Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Geraint Morse. Canolfan y Mileniwm yn y Bae yng Nghaerdydd a symbylodd ei sylwadau. Tynnodd gymhariaeth rhwng

nodweddiad yr adeilad trawiadol hwn ag Eglwys Iesu Grist, mewn dull hynod o frwdfrydig a bywiog, Rhoddodd sylw arbennig i'r geiriau sydd ar flaen y Ganolfan mewn ffenestri gwydr lliw o waith Caryl Lewis.

Ysbrydolwyd y bardd gan orffennol diwydiannol Cymru ac fel y bu Caerdydd yn brif borthladd glo'r byd. Yn yr un modd ag y bu'r môr yn gyfrwng i Gaerdydd allforio glo i bedwar ban byd a mewnforio'r byd at y ddinas



flynyddoedd yn ôl mae gofyn i ninnau heddiw yn rhan o'n cenhadaeth fel aelodau yn Eglwys Crist geisio lledaenu'r Gair a dod â phobl yn ôl at yr Iesu Byw.

Cawsom gydgymuno a'r Sacrament yng ngofal y Parchedig Tom Defis a gafodd gymorth Helen Gibbon (Y Babell) a Nigel George (Heol Awst) gyda'r gweini.




GWASANAETH GWŶYL DEWI 2017

Y Gymdeithas Ddiwylliadol

Nos Lun 6 Chwefror

Daeth nifer dda ohonom i'r festri ar noson y Gymdeithas ym mis Chwefror i wrando ar y Dr Fflur Dafydd. Braff iawn oedd croesawu cyfeillion y Tabernacl atom hefyd. Cafwyd gair byr o groeso gan Beti-Wyn ac wedyn daeth Gwilym Jones i ddechrau'r cyfarfod trwy gyflwyno hanes cyfarwydd lesu yn darllen yn y Synagog a hynny o gyfrol **Llyfr y Llyfrau** a olygwyd gan Olaf Davies, ond a geir yn efengylau Matthew Marc a Luc.

Prin bod eisiau cyflwyno Fflur, ond gwnaed hynny gan Beti-Wyn yn gryno, gan ddangos i ni amryw o'i



chyflawniadau a'i doniau. Bydd llawer o'r Priordy yn cofio'n annwyl iawn hefyd am ei mam-gu, Jennie James, Heol Dŵr Fach, ac wrth gwrs mae hi'n ferch i un o'n haelodau, sef Menna Elfyn.

Soniodd Fflur am nifer o bethau y mae hi wedi ymwneud â'u creu, er enghraifft **Y Llyfrgell**, nofel fuddugol Gwobr Goffa Daniel Owen, Eisteddfod Genedlaethol Y Bala, 2009,

a addaswyd yn ffilm, a'r gyfres **Parch** ar S4C. Eglurodd hi hefyd rywfaint ar y broses o droi nofel yn ffilm a sut y dysgodd lawer wrth baratoi deunydd i'r teledu. Clywsom yn ogystal am ddylanwad y bardd R S Thomas arni.



Bu cyfle i ofyn cwestiynau cyn cloi'r noson, a'r gynulleidfa'n dangos eu diddordeb mewn trafodaeth ddeallus a difyr. "Beth nesaf?" oedd un o'r pwyntiau a godwyd. Wel, bydd, bydd cyfres arall – y



drydedd – o **Parch** i ni gael dilyn hynt Myfanwy! Ac yn y cyfamser, dangosir ffilm **Y Llyfrgell** ar 7 Mawrth (2.00 a 7.30) ym Mhontardawe ac yn Llanelli ar 10 Mawrth i'r rhai a hoffai'i gweld.

Llawer o ddiolch am y noson ddiddorol hon, ac am y paned da arferol gan griw'r gegin.

THEATR Y FFWRNES, LLANELLI

☎ 0845 226 3510



Y LLYFRGELL

Dydd Gwener 10 Mawrth – 1.00 a 7.30

Awdur – Fflur Dafydd

Cyfarwyddwr – Euros Lyn

Ni fydd ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol fyth yr un peth ar ôl gwyllo'r ffilm

COMEDïAU CWLWM 2017

Nos Sadwrn 1 Ebrill am 7.30

Neuadd Bronwydd

Mwy o fanylion yn Cwlwm



CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY A CHANA A BLAENORIAID BANCYFELIN

Nos Fercher 15 Mawrth 2017 am 7 ym Mancyfelin

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 26 Ebrill 2017 yn y Festri am 7

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio yn cyflwyno...

NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON



PARTI CREMPOG

Cynhaliwyd parti crempog yn yr Ysgol Sul, y Sul diwethaf i nodi Dydd Mawrth Ynyd a chychwyn cyfnod y Grawys. Cawsom gyfle i sôn am beth fyddwn yn hoffi ei roi ar ein crempogau.

Mae pethau melyn i'n hatgoffa i geisio creu sefyllfaoedd 'melyn' yn ein bywydau a bywydau pobl eraill. Wrth daenu 'chocolate spread' cofiwn pa mor bwysig ydy taenu a rhannu cariad lesu. Os ydach chi'n hoffi bananas- beth am 'fynd yn bananas' a chofio bod mor llawen ag y gallwn ni bob amser!



Ar ôl y sgwrs roedd hi'n amser inni fwynhau'r crempogau a chael cystadleuaeth taflu crempog. Dyma Dylan Owen yn dangos i'r plant sut mae gwneud go iawn!

DATHLU GŴYL DDEWI

Cynhaliwyd noson hwyliog dros ben gan y Gymdeithas gyda chawl cennin hynod flasus (diolch Nan Humphreys) ac adloniant arbennig gan Ann Hopcyn a




i

Bill

Evans. Agorwyd y noson yn gartrefol gan Mair Price a diolchwyd i bawb gan Rhiannon Roberts. Da oedd cael cyfle i wrando ar dalent gerddorol Ann a Bill ar y delyn a'r ffidil a braf oedd i'r gynulleidfa gael cymryd rhan hefyd drwy ganu rhai o'n hoff alawon a chaneuon Cymraeg.

SUL Y MAMAU

Pedwerydd Sul y Grawys yw Sul y Mamau. Mae'n Ŵyl Gristnogol a masnachol. Yn wahanol i lawer o ddathliadau felly mae'r union ddyddiad yn gallu amrywio o flwyddyn i flwyddyn 25 Mawrth yw'r dyddiad eleni.



Yn draddodiadol, ar y diwrnod hwn roedd morwynion a gweision yn cael diwrnod i ddychwelyd adref i fynd i eglwys neu gapel y teulu. Ac wrth gerdded adref yn y gwanwyn yn y wlad byddai'r merched yn casglu blodau. Dyma darddiad yr arferiad o gyflwyno blodau i'r mamau.



Mae'r enw Saesneg ar y diwrnod yn taflu goleuni pellach ar yr hen draddodiad a'r newid a fu dros y blynyddoedd. Daeth pedwerydd Sul y Grawys i'w adnabod fel *Mothering Sunday* pan fyddai'r plant yn mynd yn ôl i ymweld â'u mam-eglwys (sef yr eglwys y byddent yn mynd iddi gyda'u teuluoedd pan oeddent yn fach). Parhaodd yr enw Saesneg hwn ar y diwrnod hyd at yn gynnar yn y 1900au ond wrth i'r traddodiad o fynd i'r eglwys wanhau gyda'r blynyddoedd daeth i'w adnabod yn gyffredinol fel *Mother's Day* yn unig. Diddorol ein bod yn tueddu i arddel *Sul y Mamau* yn Gymraeg o hyd. Er bod aelodau teulu'n parhau i dreulio amser gyda'i gilydd, aeth yn ddiwrnod llawer mwy masnachol bellach. Mae'n cael ei ddathlu drwy anfon cardiau, blodau a siocled neu drwy fwyta allan, fel yn yr Unol Daleithiau.

Ann Jarvis (1832-1905), gweithredydd cymdeithasol a threfnydd cymunedol yn ystod y Rhyfel Cartref yn yr Unol daleithiau yw'r fam a fu'n gyfrifol am sefydlu'r diwrnod yn y wlad honno. Ei merch Anna Marie Jarvis (1864-1948) a symbylodd droi'r diwrnod hwnnw'n ddydd gŵyl. Caiff y diwrnod ei ddathlu ar yr ail Sul ym mis Mai.



Mae'r rhan fwyaf o wledydd y byd yn dathlu'r diwrnod ond bod tarddiad a dyddiad y dathliad yn gallu amrywio o wlad i wlad.

Tybed sut byddwn ni'n dathlu Sul y Mamau eleni? Oes syniadau gennych? Efallai y bydd ymchwil a gynhaliodd y Post Brenhinol y llynedd o help i chi! Dyma'r prif bwyntiau:

- **Mae'n well gan 1 o bob 3 mam gael cerdyn na rhodd ar Sul y Mamau**
- **Mae dros hanner yn cyfaddef bod cardiau'n gwneud iddynt deimlo bod rhywun yn eu caru yn fwy na rhodd**
- **Mamau dros 45 oed a'r rheiny sy'n byw yng Nghymru a'r De Ddwyrain sydd fwyaf awyddus i dderbyn cardiau**
- **Mae Sul y Mamau yn bwysicach na'r Nadolig o ran derbyn cerdyn**

Wel, y cerdyn amdani felly, yn ôl y Swyddfa Bost! Nid bod y canfyddiad yn un annisgwyl, cofiwch, o ystyried y ffynhonnell!. Does ond gobeithio hefyd y bydd yr arferiad o deuluoedd yn mynd i'r eglwys a'r capel i fynegi diolch i'r mamau ar y diwrnod hwn yn parhau unwaith eto eleni!



CYMDEITHAS Y CYMOD

Nos Lun 13 Mawrth 2017 – 7.30

Y Parot

MR DUW

yng nghwmni

CLEIF HARPWOOD A'I FFRINDIAU

Tocynnau - £5



Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL

GLYNOG DAVIES

Nos Lun 3 Ebrill 2017 – 7 o'r gloch

Festri'r Priordy

ADNABOD EICH BEIBL.NET!
Rhowch Gynnig ar Lanw'r Bylchau!
Ceisiwch ddyfalu heb droi at y testun
Yn seiliedig ar Salmau 23, 34, 42, 121
 B.N = beibl.net BCN = Beibl Cymraeg Newydd

1	D						
2	E						
3	W						
4	I						
5	S						
6	A						
7	N						
8	T						

1. Profwch ____ eich hunain mor dda yw'r Arglwydd (B.N) [Profiwch, a gwelwch mai da yw'r Arglwydd (BCN)] Salm 34
2. Dwi'n ____ i fyny i'r mynyddoedd (B.N) [Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd (BCN)] Salm 121
3. Rôn i ____ troi at yr Arglwydd am help, ac atebodd fi . Achubodd fi o'm holl ofnau (B.N) [Ceisiais yr Arglwydd ac atebodd fi a'm gwared o'm holl ofnau (BCN)] Salm 34
4. F'enaid, pam wyt ti'n teimlo mor ____? Pam wyt ti mor anniddig? (B.N) [Mor ddarostyngedig wyt, fy enaid!, ac mor gythryblus o'm mewn! (BCN)] Salm 42
- 5 Mae gen i ____ am Dduw, y Duw byw (B.N) [Y mae fy enaid yn sychedu am Dduw, y Duw byw (BCN)] Salm 42
6. Fydd e ddim yn gadael i dy droed lithro; dydy'r Un sy'n gofalu ____ ddim yn cysgu (N.N) [Nid yw'n gadael i'th droed lithro, ac nid yw dy geidwad yn cysgu (BCN)] Salm 121
7. Mae'n rhoi bywyd ____ i mi (B.N) [Ac y mae ef yn fy adfywio (BCN)] Salm 23
- 8 Rwy'ti'n ____ olew ar fy mhen (B.N) [Yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew (BCN)] [Salm 23]

Atebion y tro nesaf!

Wythnos 1:	Mathew 4: 1-11
Wythnos 2	Ioan 3: 1-17
Wythnos 3	Ioan 4: 5-42
Wythnos 4	Ioan 9: 1-41

DIOLCH AM RODD

Daeth rhodd hael i'n rhan, drwy law Betsan James a Lowri Waterworth, er cof am y diweddar Barchedig Denzil James, gŵr a wasanaethodd yr Eglwys Gristnogol mor ffyddlon dros flynyddoedd lawer.

Bu'n fraint i ni gael Denzil yn aelod ac yn ddiagon anrhydeddus yn y Priordy wedi iddo ymddeol.

Cofiwn amdano yntau a Valerie hefyd fel ffrindiau triw i ni i gyd a'u hawydd mawr oedd gweld y Ffydd Gristnogol yn ffynnu yng Nghymru a thu hwnt. Bydd y rhodd a dderbyniwyd yn gymorth i ni geisio gwireddu'r nod hwn yn y Priordy a mawr yw'n diolch i'r teulu unwaith eto.

'EGWYL MASNACH DEG'

BORE COFFI

Dydd Mercher 8 Mawrth 2017

11-12.30

Capel Wesle

£2 (*Wrth y Drws*)



cyfundeb.com

Gwefan Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin



BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL

Dydd Sadwrn 18 Mawrth 2017- 10 tan 12

Capel y Bedyddwyr Saesneg

Stondin Gacennau gan y Priordy

Mynediad: £1.50 (Mae llwybr cefn a mwy gwastad ar gael i'r capel o gyfeiriad y Farchnad os ydych yn dymuno)

CENHADU

Mae pobl Dduw yn bobl sy'n cenhadu. Rhan o alwad a gwaith pob aelod mewn eglwys neu gapel yw cenhadu yn enw Crist. Cenhadu a dwyn tystiolaeth i Grist oedd prif waith Dewi, ein nawddsant, yn ei gyfnod yntau. Ac mae angen i ni heddiw barhau i geisio tynnu sylw cymaint o bobl yn ein cymuned ag y bo modd at bosiblrwydd y bywyd newydd yng Nghrist. Mae'r dulliau o genhadu'n ddirfedi yn ein dyddiau ni, diolch yn arbennig i wyrth technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol. Pery lle o hyd hefyd i'r gair ysgrifenedig wrth i ni ymdrechu i gynorthwyo cylch helaethach o bobl i adnabod presenoldeb Duw a'r hyn a wna drosom.

Yn ddiweddar, derbyniodd y Priordy rodd gan aelod sy'n dymuno bod yn ddi-enw ar gyfer ymgyrch genhadu drwy gyfrwng Papur Priordy.

Y dymuniad yw ein bod yn gweithredu mewn dwy ffordd.

Yn gyntaf, drwy gynhyrchu mwy o gopïau o Bapur Priordy bob mis er mwyn gosod cyflenwad ohonynt mewn mannau strategol yn ein tref, er enghraifft ambell siop neu garej neu ganolfan. Byddai wedyn yn gyfle i bobl godi'r Papur pe baent yn dymuno.

Yn ail, drwy gynhyrchu Atodiad lliwgar i'r Papur i'w ddosbarthu o gwmpas tai mewn ardaloedd cyfagos i'r capel. Byddai'r Atodiad yn cynnwys gwybodaeth am y capel a'i weithgareddau a gwahoddiad i deuluoedd ymuno â ni os nad ydynt eisoes yn gysylltiedig â chapel neu eglwys arall. Byddai'r Atodiad hefyd yn cynnwys paragraff neu ddau (yn unig) yn Saesneg i esbonio i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg pwy ydym a beth yw'n cenhadaeth. Byddent hefyd yn rhoi manylion cryno am gyfleoedd yn ein tref i ddysgu Cymraeg ac, er gwybodaeth, fannau addoli Saesneg. Rhagwelir ar hyn o bryd y byddai'r Atodiad yn cael ei gynhyrchu unwaith neu ddwywaith y flwyddyn

Rydym yn ddiolchgar iawn am y rhodd hon a fydd yn hwb i genhadaeth ein heglwys. Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, nad yw'r rhodd yn disodli'r angen am noddwyr i gynnal Papur Priordy o fis i fis. Mae'n dyled yn fawr i'n noddwyr am eu haelioni a'u caredigrwydd dros y blynyddoedd ac mae'r nawdd yr un mor hanfodol ac allweddol heddiw. Yr hyn a wna'r rhodd yw'n galluogi i fynd y filltir ychwanegol ac arloesi mewn tiroedd newydd. Mae'n ein galluogi i fentro a symud allan yn enw Crist.

Bwriedir dechrau ar y cynllun hwn wedi'r Pasg a hyderwn y byddwch yn gefnogol i'r fenter a'ch bod yn ymuno â ni yn ein diolch am y rhodd arbennig o hael a defnyddiol hon.

GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

MAWRTH		EBRILL	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Alun Charles	Wyn Evans	Alun Charles	Wyn Evans

BLODAU

Mawrth	5 19	Tina Charles Siân Axford	Ebrill	2 16 30	Heledd Tomos Meinir H Griffiths Eleri Thomas
--------	---------	-----------------------------	--------	---------------	--

PARATOI'R BWRDD CYMUN

Mawrth	5	Bore	Rhian Pritchard Franklin a Rachel Davies
Ebrill	16	Bore	Catrin Heledd Jones a Jayne Jones

YMWELWYR

Mawrth / Ebrill	Rhian ac Eirlys Jones. Henry a Bronwen Wilkins
-----------------	--

DARLLENWYR MAWRTH/EBRILL 2017

Mawrth	5	Elen Marks	Ebrill	2	Mari Jenkins
	12	Miriam Wyrwoll		9	
	19	Jayne Woods		16	Chris Lloyd
	26	Elinor W Reynolds		23	Sulwyn Thomas
				30	Dr Llinos Williams

TEULUOEDD Y MOSG

Bydd criw o deuluoedd y Mosg yn ymweld â'r Capel ar fore Sul, 2 Ebrill 2017 wedi'r oedfa. Mae croeso i unrhyw rai aros ymlaen i gwrdd â nhw.

HEN SBECTOLAU

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth i'r ymgyrch yn ystod mis Chwefror i gasglu hen sbectolau ar gyfer *Vision Aid Overseas*. Gwerthfawrogi hyn yn fawr.



DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Philip, Marie Jones a Betsan James a'r Dr Myfanwy Jones am y lluniau'r mis hwn



RYDYM yn falch o groesawu ar ran pawb yn y Priordy ŵyr bach newydd – y pedwerydd – i Eira Phillips. Ganwyd Siôn Aled yng Nghaerdydd ar 16 Chwefror yn drydydd fab i Catrin a Steffan, ac yn frawd i Twm Alun a Caio Jon. Pob bendith ar y teulu bach.



Cawsom y fraint fel cynulleidfa ar fore Sul, 5 Chwefror, o fod yn dystion i fedydd Greta Fflur, plentyn cyntaf Catrin a Rhydian Evans, ac wyres gyntaf Tudur Dylan ac Enid Wyn Jones. Peth braf oedd gweld hen dad-cu Greta, sef y Parchedig John Gwilym Jones, yn bedyddio. Cyflwynwyd y tystysgrif i'r teulu gan Gwern O'Leary. Pob bendith ar y fechan a'i theulu.

Rydym yn falch fod Rita Brown, Teras Francis, wedi dod dros ei anhwylder a chofiwn yn gynnes at bawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn.

Mae Chris Lloyd wedi bod yn brysur! Bu ar **Heno** yn siarad am Swyddfa Bost Hendy-gwyn ar Daf yn cau am y tro olaf, ac wedyn ymddangosodd ar **Prynhawn Da** mewn Cylch Meithrin yn rhinwedd ei swydd. I goroni'r cwbl cafodd ei dewis i berfformio mewn digwyddiad cyhoeddus fel **Dewin**, mascot y **Mudiad Ysgolion Meithrin** a hynny yn y wisg briodol. Roedd hyn i gyd ar ddechrau Chwefror, a hyderwn ei bod wedi cael cyfnod tawelach wedyn!



Gwelwyd Eirlys Davies ar **Prynhawn Da** ar **S4C** un diwrnod, yn cael ei thrawsnewid o ran colur a dillad. Profiad arbennig iddi, mae'n siŵr. Roedd Iwan a Lisa Davies, dau o'n pobl ifanc, ar **Heno** un noson yn rhan o griw **Clwb Ffermwyr Ifainc Llanddarog**. Ac roedd tri o'n pobl ifanc yn cyflwyno **Oedfa'r Bore** ar **Radio Cymru** gyda'n Gweinidog un dydd Sul, a hynny'n raenus. Gweler yr adroddiad yn y Papur hwn. Ymddangosodd llun Menna Elfyn yn y **Carmarthen Journal** ddechrau Chwefror gyda'r bardd o Efrog Newydd, Martin Willitts, a enillodd **Wobr Ryngwladol Barddoniaeth Dylan Thomas 2014**. Cyhoeddwyd cyfrol o gerddi Martin Willitts yn seiliedig ar ei ymweliad â De-Orllewin Cymru dan nawdd **Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**. Ac un wythnos roedd llun Sulwyn Thomas yn y **Cymro**, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd **Llyfrau Llafar Cymru**, yn derbyn cyfraniad anrhydeddus i'r elusen gan **Fanc Bro Llanfihangel Genau'r Glyn**.



Mae nifer o eitemau bach diddorol ym myd chwaraeon y mis hwn. Cofiwch, efallai, fod Gwenllian a Marged Jones wedi mynd i gystadleuaeth gymnasteg yn Fflorida. Daeth



Gwenllian yn 8fed yn ei grŵp oedran a Marged yn 9fed yn ei grŵp hi.

Cafodd y ddwy fedal am ddod yn 5ed ar y llawr, a chafodd Gwenllian 6ed ar y trawst yn ogystal. Cafodd y ddwy brofiad gwych yn cystadlu mewn cystadleuaeth enfawr a Marged yn enwedig yn cystadlu mewn sgiliau

newydd sbon iddi hi. Gwelir eu llun mewn lle arall yn y **Papur hwn**. Wedyn, trown at fyd pêl-droed. Mae Steffan O' Leary'n rhan o dîm Bl 8 **Ysgol Bro Myrddin** (er mai disgybl ym Ml 7 yw e). Enillodd y tîm yn erbyn **Ysgol y Moelwyn**, Blaenau Ffestiniog, i gyrraedd rownd gyn-derfynol cystadleuaeth **Cwpan Rhwng Ysgolion Cymru**. Bydd y tîm yn teithio i chwarae yn erbyn **Ysgol Uwchradd Llangeferni** ar Ynys Môn yn y rownd nesaf. Mae tîm Bl 7 yr ysgol hefyd wedi bod yn llwyddiannus, gan gyrraedd y chwarteri yn eu cystadleuaeth genedlaethol hwy. Yn ogystal â Steffan, mae Carwyn Axford yn rhan o'r tîm hwnnw. Gallwn yn wir fod yn hynod falch o'n pobl ifanc ar sawl cyfrif.



AC / GLOI, ein llongyfarchiadau mawr i Elinor Wyn Reynolds ar ei phenodi'n Swyddog Cyhoeddiadau a Chynorthwy-ydd gydag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a dymuniadau da iddi yn swydd hon ar ran pob un ohonom!

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ebrill i'n
Gweinidog ☎ 01267 neu Tina Charles ☎ 01267 236037

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir ag Elaine Davies, Bryn Coed, Glantwy, ar golli'i chwaer Beti Jones, Llanymdyfri, ar 24 Ionawr yn dilyn cyfnod hir o salwch. Cofiw'n hefyd am ei gweddw Glyn a'r plant Hugh a Helen a'r wyrion Hanna a Dafydd a gweddill y teulu yn eu hiraeth a'u galar.

CAPEL SOAR, PONTYBEREM, A'R GYMDEITHAS HANES

DATHLU TRICHANMLWYDDIANT
GENI WILLIAM WILLIAMS, PANTYCELYN

Nos Fercher, 15 Mawrth 2017 am 7 pm

Yr Athro E Wyn James , Y Prifardd Mererid Hopwood

Gwenda Owen ac Elin Fflur

Cenir rhai o emynau Pantycelyn. *Croeso cynnes i bawb*



DRWS AGORED

*Bore lau - 16 Mawrth 2017 - Ffestri'r Priordy
Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11*





Y SULIADUR



Mawrth	5	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog Y Tabernacl yn ymuno â ni	Cymun
	12	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Yn ymuno â'r Tabernacl ar gyfer oedfa gyda'r Prifardd Mererid Hopwood	
	19	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	26	<i>Bore P'nawn</i>	Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor Oedfa i'r Ofalaeth yng Mancyfelin gyda'r Parchedig Guto Prys ap Gwynfor	

Ebrill	2	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog Y Tabernacl yn ymuno â ni	
Sul y Blodau	9	<i>Bore Hwyr</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog Yn ymuno â'r Tabernacl ar gyfer oedfa gyda'r Parchedig Peter Cutts	
Sul y Pasg	16	<i>Bore P'nawn</i>	Cwrdd Undebol i'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yn y Priordy Cwrdd Undebol i'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yn y Gymuned ym Mancyfelin am 2.30	Cymun
	23	<i>Bore P'nawn</i>	Y Parchedig Alwyn Daniels Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana gyda'r Parchedig Alwyn Daniels	
	30	<i>Bore</i>	<i>Ein Gweinidog</i>	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP : PIP ar Daith CP – Cwrdd Plant - Dim Ysgol Sul								
MAWRTH				EBRILL				
5	12	19	26	2	9	16	23	30
✓	✓	✓ PIP	✓	✓	CP	-	-	✓

CYMDEITHAS DDIWYLLIADOL Y PRIORDY

SWPER GŴYL DEWI yng ngofal y DYNION

Nos Lun 6 Mawrth 2017 - y Ffestri am 7

